# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 7 Chwefror 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, D. Jones, H.I. Jones, K. Lloyd, K. Madge, B.D.J. Phillips, J.G. Prosser a J.E. Williams

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd D. Thomas a anerchodd y Pwyllgor mewn perthynas â chais cynllunio E/37648.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De)
L. Jenkins, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 - 11.15 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M.J.A. Lewis, C. Jones, a G.B. Thomas.

## 2. Datgan Buddiannau Personol

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| J.A. Davies | Cais Cynllunio – E/37648 - Adeiladu mynediad gât i'r safle o'r enw Penygroes Concrete Works yn ogystal â gwneud gwaith draenio cysylltiedig, y ceir mynediad iddo o'r ffordd gyswllt economaidd (wrthi'n cael ei hadeiladu) a hefyd adeiladu mynediad amaethyddol newydd o'r ffordd gyswllt economaidd yn Penygroes Concrete, Heol Norton, Pen-y-groes, Llanelli, SA14 7RU | Mae'n perthyn i berchennog Penygroes Concrete Works. |
| J.D. James | Cais cynllunio - S/38052 - Newid defnydd o hen Gapel Seion (D1) i ddarparu swyddfeydd ar y llawr gwaelod (B1) a chreu dwy lefel ychwanegol o lety (C3), 2 fflat 2 ystafell wely ar y ddau lawr (cyfanswm o 4 fflat 2 ystafell wely) yng Nghapel Seion, Stryd Parc-y-Minos, Porth Tywyn. | Mae'n breswylydd yn y stryd lle y gwneir cais am ganiatâd cynllunio, ac mae'n adnabod yr ymgeisydd. |

## 3. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau a nodwyd yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:**

| | |
|---|---|
| **E/37648** | **Adeiladu mynediad gât i'r safle o'r enw Penygroes Concrete Works yn ogystal â gwneud gwaith draenio cysylltiedig, y ceir mynediad iddo o'r ffordd gyswllt economaidd (wrthi'n cael ei hadeiladu) a hefyd adeiladu mynediad amaethyddol newydd o'r ffordd gyswllt economaidd yn Penygroes Concrete, Heol Norton, Pen-y-groes, Llanelli, SA14 7RU**<br><br>[Sylwer: Gan ei fod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd J.A. Davies siambr y Cyngor cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno].<br><br>Bu'r aelod lleol yn annerch y Pwyllgor ynghylch pryderon mewn perthynas â llwch ar y safle. Dywedodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu y gallai unrhyw bryderon ynghylch materion o'r fath gael eu trosglwyddo i Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol. |

## 4. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau a nodwyd yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **S/36837** | **Amrywio amodau 2, 7 a 9 o gais cynllunio S/32708 yn hen westy Gwenllian Court, Mynyddygarreg, Cydweli, SA17 4LW** |

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **S/37798** | **Adeiladu dau dŷ ar wahân ar dir yn Nolau Fan, Porth Tywyn, SA16 0RG**<br><br>Mewn ymateb i gwestiynau a godwyd gan yr Aelodau, dywedodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu y byddai gwaith peirianyddol sylweddol yn cael ei wneud fel rhan o'r datblygiad, fel eiddo eraill, ac y byddai'n cael ei archwilio gan y gwasanaeth Rheoli Adeiladau.<br>Rhoddodd y Rheolwr Datblygu sylw i'r mater o 'ffyrdd heb eu mabwysiadu' a rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod y mater hwn yn destun adolygiad ar hyn o bryd. |

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor gynnal ymweliad safle:-**

| | |
|---|---|
| **S/38052** | **Newid defnydd o hen Gapel Seion (D1) i ddarparu swyddfeydd ar y llawr gwaelod (B1) a chreu dwy lefel ychwanegol o lety (C3), 2 fflat 2 ystafell wely ar y ddau lawr (cyfanswm o 4 fflat 2 ystafell wely) yng Nghapel Seion, Stryd Parc-y-Minos, Porth Tywyn.**<br><br>[Sylwer: Gan ei fod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd J.D. James siambr y Cyngor cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno].<br><br>**RHESWM** – Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle yn sgil pryderon a godwyd ynghylch yr effaith bosibl ar draffig a pharcio. |

5. **RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau a nodwyd yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **W/38150** | **Adnewyddu caniatâd cynllunio sydd wedi dod i ben (W/20486), preswylfa yn 14 Heol Gwermont, Llan-saint, Cydweli, SA17 5JA**<br><br>Nodwyd bod y cais yn amodol ar Ganiatâd Ardal Gadwraeth i ddymchwel yr adeilad presennol hefyd yn cael ei gymeradwyo. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod cais am y caniatâd hwn wedi dod i law.<br>Mewn ymateb i gwestiwn gan yr aelodau, dywedodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu mai'r newidiadau mwy arwyddocaol i'r caniatâd gwreiddiol (W/20486) oedd sicrhau Taliad Tai Fforddiadwy, cael gwared ar Hawliau Datblygu a Ganiateir a hefyd sicrhau'r defnydd o sgriniau preifatrwydd lle bo angen. |

**6. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 10FED O IONAWR 2019**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2019 yn gofnod cywir.**

________________________ ________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarlledidiad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]